**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 2 Medi 2021**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>Melody Chapman, Gareth Wynn Davies (ymadawodd am 12.30pm), John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Vicky Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru<br>Dr Tim Render, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru<br>Maria Richards, Llywodraeth Cymru |
| **Y Weithrediaeth yn bresennol:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 6b ac 8<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

**<u>I groesawu Dr Tim Render, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig a Vicky Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru</u>**

Croesawodd y Cadeirydd Dr Tim Render a Vicky Jones a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o Fwrdd HCC ers iddi gael ei phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy i Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd Dr Tim Render asesiad cynhwysfawr o'r sefyllfa adfer ar ôl Brexit a Covid-19.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Tim Render a Vicky Jones am ymuno â'r cyfarfod.

Dechreuodd y rhan ffurfiol o gyfarfod y Bwrdd.

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i nawfed cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19). Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig bod rhith-gyfarfodydd yn parhau ond y gobaith oedd y gellid galw cyfarfod hybrid yn y dyfodol agos. Byddai hyn dan ystyriaeth drwy'r amser.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol rhithwir a fynychwyd ganddi.

8 Gorffennaf 2021 – Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir - cyfarfod rhagarweiniol gyda Nicholas Saphir, Cadeirydd newydd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ac yna cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, Lee Waters AoS i drafod gwaith HCC yn ymwneud ag adroddiad Y Ffordd Gymreig. Hefyd, bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

20 Gorffennaf 2021 – Cymerodd y Cadeirydd ran mewn seminar i'r diwydiant a drefnwyd gan NFUCymru ar Ragolygon y Dyfodol ar gyfer Cig Coch.

21 Gorffennaf 2021 – Grŵp Llywio Iechyd a Lles Anifeiliaid Cnoi Cil.

5 Awst 2021 – Cyfarfod o Bwyllgor Tâl HCC.

11 Awst 2021 – Cymerodd y Cadeirydd ran mewn trafodaeth banel ar y cyd yn Sioe Môn ynghyd â chynrychiolwyr o Undebau'r Ffermwyr a gwleidyddion lleol. Prif bwnc y sgwrs oedd cynaladwyedd.

16 Awst 2021 – Cymerodd y Cadeirydd ran mewn ffilmio ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol HCC.

1 Medi 2021 – cyfarfod o Bwyllgor Tâl HCC

Parhaodd y cyfarfodydd dal-i-fyny rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr drwy Teams.

## 2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod gan un o aelodau'r Bwrdd, Huw Davies.

## 3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

## 4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Gorffennaf 2021 (HCC 1020)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Gorffennaf 2021 fel y'u darllenwyd, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. **Materion yn codi**

*Strategaeth Gyfathrebu mewn perthynas â Chynaliadwyedd*

Roedd y cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol lle'r oedd y Bwrdd yn cytuno bod gofyniad i archwilio i agweddau ar dystiolaeth ynghylch statws bioamrywiaeth y gellid eu cynnwys o fewn Y Ffordd Gymreig yn cael ei ystyried.

*Strategaeth Ymchwil a Datblygu HCC*

Nodwyd y byddai fersiwn diwygiedig o’r uchod yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Ymgynghorol Ymchwil a Datblygu HCC yn y cyfarfod ar 6 Hydref 2021. Yn amodol ar gytundeb gan y Pwyllgor, byddai’r Strategaeth yn cael ei hargymell i’r Bwrdd i’w chymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ar 3 Tachwedd 2021.

*Cytundebau Masnach Rydd*

Nodwyd bod papur briffio mewn perthynas â Chytundeb Masnach y DG/Awstralia wedi’i gynhyrchu er gwybodaeth i’r Bwrdd a’i lanlwytho i Sharepoint.

Byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn perthynas â Chytundebau Masnach eraill yn y dyfodol gyda gwledydd megis Seland Newydd, UDA, Canada, India a Mecsico.

6. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 1021)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

***Cyfathrebu***

Cafodd sylw o dan Eitem 7 ar yr agenda.

***Datblygu'r Diwydiant a'r Rhaglen Datblygu Cig Coch***

*Adroddiad HCC Y Ffordd Gymreig – Perffeithio'r Ffordd Gymreig – Arweiniad ymarferol i ffermio defaid a gwartheg cig eidion trwy ddulliau cynaliadwy*

Roedd yr adroddiad drafft yn cael ei adolygu'n fewnol ar hyn o bryd.

Byddai fersiwn terfynol o'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd maes o law ac roedd trefniadau yn cael eu trafod ar gyfer lansiad yr hydref.

*Rhaglen Datblygu Cig Coch – Ansawdd Cig Oen Cymru*

Dywedodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fod trefniadau'n mynd rhagddynt o ran Treial 2 o ddigwyddiadau panel blas y defnyddwyr. Roedd Treial 2 yn ymwneud ag asesu ffactorau ar y fferm o ddiet pesgi ŵyn (Glaswellt yn unig, Glaswellt a Dwysfwyd, Dan Do a Gwreiddiau), cyfradd twf ŵyn a'r ffactor prosesu

Roedd y panel blasu cyntaf, a gynhaliwyd yn Llwydlo rhwng 3 a 5 Awst 2021, wedi bod yn llwyddiant ac roedd nifer dda yn bresennol. Byddai'r ddau ddigwyddiad arall yn cael eu cynnal yng Nghaer (6 – 8 Medi) a Reading (7 – 9 Rhagfyr 2021).

*Adroddiad gwerthuso canol tymor y Rhaglen Datblygu Cig Coch*

Cafodd yr adroddiad drafft ei dderbyn ac roedd yn cael ei adolygu'n fewnol. Câi crynodeb ei baratoi i'r Bwrdd maes o law.

***Datblygu'r Farchnad***

Roedd ymwneud HCC ag Wythnos Caru Cig Oen (1 – 7 Medi 2021) yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r cyflenwyr Compass Cymru i hyrwyddo detholiad o ryseitiau Cig Oen Cymru PGI yng nghanolfannau Llywodraeth Cymru drwy gydol yr wythnos. Roedd hyn yn rhan o raglen ehangach o waith hyrwyddo gan HCC yn ystod yr wythnos a oedd hefyd yn cynnwys hysbysebion i ddefnyddwyr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddiadau gyda sawl mân-werthwr cadwyn a chyflenwyr gwasanaethau bwyd.

Tynnodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad sylw at weithgareddau a oedd yn digwydd yn unol â'r adroddiad ac roedd yn bleser nodi y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ailddechrau mynychu digwyddiadau allanol a digwyddiadau i ddefnyddwyr – gan ddechrau gyda Gŵyl Fwyd y Fenni ar 18 – 19 Medi 2021.

Roedd yr adran hefyd yn brysur cynllunio cyfraniad HCC i Blas ar Gymru (prif ddigwyddiad bwyd a diod Cymru) a fyddai'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (ICCW), Casnewydd ar 27 – 28 Hydref 2021.

b. I dderbyn a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Gynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2021 / 2022 (HCC 1022)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

c. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1023)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

d. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2021 (HCC 1024)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion i'w codi.

e. Digwyddiadau i ddod (HCC 1025)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

7. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Medi 2021

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am faterion allweddol a drafodwyd yn y cyfarfod.

*Cyfarfodydd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid HCC 2021*

Cyflwynwyd papur ag argymhellion ynghylch yr uchod i'r Pwyllgor.

Yr argymhelliad oedd bod cyfres o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y fferm yn ystod yr hydref er mwyn:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y materion allweddol sy'n wynebu'r sector, gan gynnwys trafodaeth ôl-Brexit ac ôl-Covid
- Trafod y blaenoriaethau strategol i HCC a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol
- Meithrin ymdeimlad o gydberchnogaeth gan randdeiliaid o strategaeth HCC ar gyfer y dyfodol.

Roedd cynllunio wedi dechrau a byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

*Cynaliadwyedd a COP 26*

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr uchod:

- Ar lefel Ryngwladol, roedd HCC wedi defnyddio tystiolaeth a gyflwynwyd i'r uwchgynhadledd gan y Gynghrair Gig Fyd-eang (GMA), Y Ford Gron Fyd-eang ar Gig Eidion Cynaliadwy a'r Ysgrifenyddiaeth Gig Ryngwladol. Roedd asedau cyfryngol wedi'u paratoi a byddent yn cael eu defnyddio gan HCC o fis Medi 2021 ymlaen
- O ran lefel y DG a gwaith cydweithredol, roedd HCC yn ymgysylltu â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Quality Meat Scotland (QMS) mewn perthynas â negeseuon allweddol yn y cyfnod cyn COP26
- O ran y cyd-destun Cymreig, roedd HCC yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COP Cymru a chynadleddau thema
- Hefyd, roedd y Weithrediaeth yn paratoi gweithgareddau i'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol wedi'u seilio ar y ddogfen *Y Ffordd Gymreig*.

*Cynhadledd HCC –11 Tachwedd 2021*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer digwyddiad hybrid. Byddai'r digwyddiad ffisegol yn cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Aelodau, Maes Sioe Frenhinol Cymru. Y llwyfan rhithwir a gâi ei ddefnyddio oedd Whova.

Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru ymhellach am ddatblygiadau yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2021.

*Y Ffair Aeaf –29 / 30 Tachwedd 2021*

Roedd y Weithrediaeth yn ymgysylltu â chwmni Sioe Frenhinol Cymru ynghylch presenoldeb HCC yn yr uchod. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni fyddai arddangosiadau coginio yn cael eu cynnal eleni. Roedd trefniadau ar y gweill i gynnwys derbyniad brecwast ar y dydd Llun – ond gyda llai o bobl yn bresennol. Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru ymhellach am ddatblygiadau yn ei gyfarfod ar 3 Tachwedd 2021.

8. **I dderbyn Datganiad Polisi HCC ar Frandio Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 1026)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Nodwyd bod Cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig yr UE, ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit (1 Ionawr 2021) wedi cael ei ddisodli gan Gynllun Dynodiad Daearyddol y DG. Roedd hwn yn ailadrodd rheolau a gofynion cynllun yr UE, gan ganiatáu i'r UE barhau i gydnabod cynhyrchion Dynodiad Daearyddol y DG a werthir yn eu tiriogaeth ac i'r gwrthwyneb.

Am fod Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru wedi eu gwarchod o dan Gynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig yr UE fel cynhyrchion â statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI), roedd y newidiadau hyn yn berthynol i Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru. Felly, roedd Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI bellach wedi'u diogelu gan ddeddfwriaeth yr UE a'r DG.

Roedd y Weithrediaeth wedi adolygu canllawiau brandio Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru gyda golwg ar y newidiadau, ac roedd y canllawiau brandio wedi cael eu diweddaru. Amlinellodd y Weithrediaeth Cig Coch y newidiadau yn y papur o dan y penawdau Gwerthiant o fewn y DG, Gwerthiannau i'r UE (a Gogledd Iwerddon) a Gwerthiannau Rhyngwladol (y tu hwnt i'r UE)

9. **Unrhyw fater arall**

-

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 7 Hydref am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Mercher 3 Tachwedd 2021. Yr amser i'w drefnu.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**